

Crefyddol neu Gristnogol?

“...oherwydd nid ar air yn unig y daeth atoch yr Efengyl yr ydym ni yn ei phregethu, ond mewn nerth hefyd, ac yn yr Ysbryd Glân, a chydag argyhoeddiad mawr.” (adn. 5)

Beth am ddarllen 1 Thesaloniaid 1:1–10 ac yna myfyrio

Os yw'r Eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain i'w diwygio, yna mae'n rhaid iddi ddechrau yn yr un man ag y dechreuodd yr eglwys yn Antiochia – dechrau gyda'r “newyddion da am Iesu Grist”. Mae hyn yn hanfodol. Wrth i'r disgyblion ddechrau ar y sail yma, yna fe ddilynwyd eu hymdrechion gan fendithion. Nid fod ailddarganfod y gwirionedd am yr Arglwydd Iesu yn datrys pob anhawster, wrth gwrs. Yr oedd yn rhaid i'r neges a dderbyniwyd gan bobl Antiochia gael ei gweithredu yn eu perthynas â'u teuluoedd ac â'r gymuned o'u hamgylch. Ond, oherwydd bod y sail hon ganddynt, daeth yr eglwys yn eglwys mewn gwirionedd, gyda Iesu'n ysbrydoli pob un o'u gweithgareddau a'u cynorthwyo i gymhwyso ei ddysgeidiaeth i'w bywydau a'u perthynas ag eraill. Iesu oedd eu patrwm, a Iesu oedd eu nod. Iesu hefyd oedd y grym oedd yn eu cynorthwyo i gyrraedd y nod.

Mae yna ddogfen sydd yn rhestru erthyglau Cymdeithas Gristnogol y Gwŷr Ifainc. Tynnwyd allan y rhestr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ŵr o'r enw George Williams. Yn ôl y ddogfen, dywedir fod y Gymdeithas wedi ei bwriadu yn wreiddiol i fod yn ‘Gymdeithas Grefyddol y Gwŷr Ieuainc.’ Beth bynnag, fe ddilëwyd y gair ‘crefyddol’ gan ddefnyddio yn hytrach y gair ‘Cristnogol’. Mae rhai'n disgrifio y dilead yna fel yr un mwyaf pwysig yn hanes y Gymdeithas. Petai'r Gymdeithas neu yr Y.M.C.A. bellach, wedi cychwyn trwy fod yn fudiad crefyddol yn hytrach na mudiad Cristnogol, ni fuasai wedi medru adnabod y grym a'r nerth oedd ar ei chyfer ym mherson yr Arglwydd Iesu, ac ni fyddai erioed wedi profi y fath fendith yn ei gweinidogaeth o efengylu.

Bellach, wrth gwrs, mae yna nifer o adrannau o'r Y.M.C.A. yn coleddu safbwyntiau llai Cristnogol. Os pery hyn, ni fydd y mudiad hwn yn ddim mwy na grym cymdeithasol, heb ddim grym ysbrydol. Mae rhai eglwysi'n adlewyrchu y patrwm yma. Nid ydynt mwyach yn Gristnogol, ac felly maent yn marw trwy fod yn annelwig.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 2:14–37; 3:1–4:2; 4:18; 8:5

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae cyhoeddi Iesu yn ei olygu?
2. Beth yw canlyniadau cyhoeddi Iesu?

Gweddï

O Dduw, diogela dy Eglwys rhag bod yn gymdeithas annelwig. Cynorthwya ni i fod yn gymdeithas Gristnogol gan gyhoeddi Iesu, a thrwy hynny arwain pobl atat ti yn hytrach nag atom ni. Gofynnaf hyn yn enw Iesu. Amen.